# Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan
# Llanddoged and Maenan Community Council

DELYTH M. ALGIERI
Clerc

Ffôn (01492)642183

Bryn Dedwydd
Penrhiw,
Llanddoged.
Llanrwst.
LL26 0BZ

E.Bost clerk@llanddoged-maenan.org.uk

**************************************************************************************

19/5/2023

Annwyl Syr/Fadam,

Cynhelir cyfarfod yn **Ysgol Gynradd Llanddoged** , **Nos Lun 22ain Mai, 2023** am **7.30** o'r gloch i ystyried y materion a ganlyn:-

- Ymddiheuriadau.
- Cadarnahu cofnodion o'r cyfarfod diwethaf 24ain, Ebrill, 2023
- Materion yn codi o'r cofnodion
- Cynllunio:.

  1)**Cyfeirnod:** 0/50715 Mr Gwion Hughes - Estyniadau ac addasiadau mewnol ac allanol cyffredinol, yn cynnwys adeiledd ystlumod ar wahân o fewn ffiniau'r safle. PANT YR YCH MAWR Ffordd Pant Yr Ych Mawr Maenan Llanrwst LL26 0YG

  2) **Cyfeirnod** 0/50716 Mr Gwion Hughes Trawsnewid ty allan i'w osod ar gyfer gwyliau PANT YR YCh MAWR Ffordd Pant Yr Ych Mawr Maenan Llanrwst LL26 0YG

  3) **Cyfeirnod:** 0/50730 Atgyweirio trac mynediad presennol (Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Coedwigaeth) Woodland Known As Coed Tan Yr Allt Maenan Llanrwst Conwy

- Cynnal a Chadw
- Unrhyw Fater Arall Polisiau- Mabwysiadu 'Rheoliadau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol'.

Yn gywir
Delyth Algieri(Clerc)

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, EBRILL 24ain, 2023**

**PRESENNOL**
Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Anwen Jones,
Delyth Algieri (clerc).
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Eifion Williams, Cyng. Alun Morris, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Dylan Jones,
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir)

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth, 2023.

1.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**
1.1 **MATERION BAW CWN**
Y Clerc yn cysylltu gyda Mr Simon Billington o'r Adran Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wythnos yma i archebu biniau baw cwn ar gyfer ardal Penrhiw Llanddoged ac ar gyfer Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

**1.2 MAES PARCIO GEGIN WEN, LLANDDOGED**
Diolchodd y Cadeirydd i Cyng Alun Morris am ei waith o dacluso gwyneb y maes parcio Gegin Wen Llanddoged

**1.3 ARWYDD AR GYFER MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**
Derbyniwyd y clerc e-bost gan y cwmni 'Signsworkshop' gyda chopi o esiampl o'r arwydd ar gyfer y maes parcio Cadair Ifan Goch ynghyd a gwybodaeth o gost am yr arwydd o £675 + TAW. Trafodwyd y gost a phasiwyd i'r clerc holi Haf Jones, Cyngor Conwy yn gyntaf a oes arian grant ar gael tuag at gost yr arwydd. Nododd Cyng. Arwel Jones a'r Cadeirydd Cyng. Jonh Owen y buasent nhw yn fodlon nol yr arwydd a'i osod yno.

**2. CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2022**
Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo y cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth 2022. Rhanwyd mantolen cyfrifon y cyngor i aelodau y cyngor ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfrifon. Bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwiliwr mewnol sef y Cyfrifydd Iona Edwards, Llanrwst.

**3. CYNNAL A CHADW**
3.1 Angen tario'r mannau pasio ar ffordd yr Abbey rhwng Wigfa a Thŷ'r Ysgol, Maenan.

**4. UNRHYW FATER ARALL**
**4.1 OFFER SLEIDIAU AR GYFER Y MAES CHWARAE**
Cais am gael sleidiau ar gyfer maes chwarae Cae Cetyn a Maes Chwarae Maenan. Y clerc i holi'r Adran Hamdden, Cyngor Conwy.
**4.2 ARWYDD DIM CWN**
Angen arwydd 'Dim Cwn' ar gyfer maes chwarae Maes Chwarae Maenan. Y clerc am chwilio am arwydd ar gyfer y maes chwarae.
**4.3 YSWIRIANT Y CYNGOR**
Pasiwyd a chadarnhawyd aelodau y cyngor drwy godi eu dwylo i dalu £347 i BHIB Ltd am yswiriant y Cyngor am y flwyddyn 2023/24.

**4.4 POLISIAU**

Cymeradwyodd ac mabwysiadwyd y Cyngor polisiau 'Rheoliadau Ariannol a Rheolidau Sefydlog' 2023/24. Arwyddodd y Cadeirydd y polisiau.

**5. CYLLID**

5.1 Taliadau

Sieciau 100486 – BHIB LTD – Tal am yswiriant y Cyngor £347.99
Ffioedd y banc-Cyfrif cyfredol
Mis Ebrill- £13.00

5.2 Derbyniadau

Cyfrif Cyfredol £5705.26 Cyfrif Cadw £2,987.68

Arwyddwyd (Cadeirydd) …………………………… Dyddiad ………………………………………………….